Gweledigaeth

AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU

sportwales
chwaraeoncymru

Cynnwys

		TUDALEN
1.	Rhagair	3
2.	Crynodeb Gweithredol	7
3.	Cyflwyniad	13
4.	Beth Rydym yn ei Wybod	17
5.	Effaith Chwaraeon	21
6.	Blaenoriaethau ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru:	27
	Blaengaredd Mewn Chwaraeon	
	Sgiliau ar gyfer Bywyd mewn Chwaraeon	
	Cymunedau Chwaraeon	
	Rhagoriaeth Mewn Chwaraeon	
	Meithrin Gweithlu Medrus ac Angerddol	
7.	Pawb yn Chwarae Eu Rhan	37

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

dylunio: sugar creative studio | sugarcs.com

1. Rhagair

Mae Chwaraeon yng Nghymru ar fin wynebu newid na welwyd mo'i debyg erioed o'r blaen mewn diwylliant. Nodweddir y diwylliant hwn gan weledigaeth glir a beiddgar a all ysbrydoli cyflwyno canlyniadau mwy a gwell ar gyfer chwaraeon. Wrth weithio tuag at nod cyffredin, byddwn yn ein herio ein gilydd a'n cefnogi ein gilydd mewn ffordd gadarnhaol.

Mae gan Chwaraeon Cymru a'r sector chwaraeon ehangach weledigaeth ar gyfer sut i gyflwyno agenda chwaraeon a gweithgarwch corfforol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n well, gan ysbrydoli, datblygu a chyflwyno profiadau cadarnhaol i bawb.

Nid yw'n newydd o angenrheidrwydd. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar gael mwy o bobl i fod yn fwy egnïol yn amlach ac ar sicrhau bod Cymru'n cael llwyddiant ar lwyfan y byd mewn chwaraeon. Ond mae'n wahanol – yn uchelgeisiol ei sgôp, yn feiddgar ei chanlyniadau ac yn hynod heriol i bawb ohonom sy'n gweithio yn y byd chwaraeon. Mae'n mynnu bod pob un ohonom yn ymroi i fod yn sefydliadau sy'n perfformio'n hynod dda.

O ddysgu AG i ddarparu cyfleoedd chwaraeon cystadleuol yn y gymuned; o ddenu a pharatoi criw cynyddol o wirfoddolwyr i hyfforddi a dal gafael ar hyfforddwyr o safon uchel ym mhob camp; o herio pob cyflwynydd i godi'r safon i ysbrydoli gwaith cynllunio aml-bartner, mae'r weledigaeth hon yn un bellgyrhaeddol.

Mae'r gwaith o uno pobl, rhoi hwb i falchder a chreu cenedl chwaraeon ddidwyll lle mae'r cymunedau'n hyfyw ac yn fwrlwm o weithgarwch yn dasg anferth. Rydym ni fel sector eisiau cydweithio o'r newydd i gael Cymru i fod yn egnïol, gan gyflawni'r gorau er mwyn ei phobl a meithrin lefelau uwch fyth o falchder cenedlaethol.

Rydym eisiau gweld chwaraeon yn dod yn rhan gynhenid a chanolog o fywyd pawb yng Nghymru. Mae'r newid mawr hwn yn dechrau gyda'r genhedlaeth ifanc. Rydym eisiau gwrando ar bobl ieuainc, rhoi llais iddynt a'u hannog i ysbrydoli eu cyfoedion i wirioni ar chwaraeon am oes. Rydym eisiau gweld plant yn llunio portffolio eang o sgiliau o oedran cynnar, yn parhau i gymryd rhan pan yn oedolion ac yn sicrhau cyfranogiad cynaliadwy mewn chwaraeon. Yn Chwaraeon Cymru, rhoddir blaenoriaeth i waith gyda phlant a phobl ieuainc ond hefyd byddwn yn gweithio i ehangu'r hyn a gynigir i oedolion.

Rydym yn gweld manteision chwaraeon yn yr ystyr ehangaf - nid dim ond yn cael effaith ar wella iechyd corfforol y genedl ond hefyd yn dod â chymunedau at ei gilydd, yn meithrin hyder yr hen a'r ifanc, yn darparu sgiliau a hyfforddiant newydd ac yn denu buddsoddiad i Gymru. Bydd Chwaraeon Cymru'n rhoi hwb i'r ymdrechion i hyrwyddo effaith gadarnhaol chwaraeon ar bob agwedd ar fywyd Cymru ac yn annog partneriaid i fynegi manteision chwaraeon i bawb.

Yr Athro Laura McAllister
Cadeirydd, Chwaraeon Cymru

2. Cynodeb Gweithredol

Gweledigaeth y sector yw **UNO CENEDL SY'N CARU'R CAMPAU**, lle mae **POB PLENTYN** wedi **GWIRIONI AR CHWARAEON AM OES** a Chymru'n **GENEDL O BENCAMPWYR.** Cefnogir y weledigaeth hon gan flaenoriaethau wedi'u diffinio'n bendant.

Y blaenoriaethau yw:

1. BLAENGAREDD MEWN CHWARAEON:

Mae gan Gymru sector chwaraeon sy'n croesawu cydweithio, yn annog ffyrdd newydd o gyflwyno cyfleoedd er mwyn cynyddu cyfranogiad ac yn gwella perfformiad elitaidd.

2. SGILIAU AR GYFER BYWYD MEWN CHWARAEON:

Darparu i bob plentyn ac unigolyn ifanc sgiliau a hyder o oedran ifanc i fod yn llythrennog yn gorfforol drwy gyfrwng profiadau chwaraeon ysgogol, o safon uchel.

3. CYMUNEDAU CHWARAEON:

Mae gennym gymunedau lle mae chwaraeon yn allweddol ynddynt, yn cynnig cyfleoedd unedig i bob plentyn ac unigolyn ifanc gymryd rhan mewn o leiaf pump awr o chwaraeon diogel o safon uchel bob wythnos a chynnal eu cyfranogiad drwy gydol eu hoes fel oedolyn.

4. RHAGORIAETH MEWN CHWARAEON:

Rydym yn genedl sy'n rhagori wrth feithrin talent chwaraeon ac yn cyflwyno llwyddiant parhaus ar y llwyfan rhyngwladol.

5. MEITHRIN GWEITHLU MEDRUS AC ANGERDDOL:

Cefnogir pawb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, boed yn broffesiynol neu'n wirfoddol, i drosglwyddo eu sgiliau a'u hangerdd dros chwaraeon i bobl Cymru.



YN HYNOD FEIDDGAR, AC YN FALCH O HYNNY, BYDD Y WELEDIGAETH HON O GYMORTH I YSGOGI EIN CYMHELLIANT A'N HYMRODDIAD I GYFLWYNO'R GORAU UN AR GYFER CHWARAEON CYMRU.

NID DIM OND DILYN PROSES NEWYDD SYDD EI ANGEN, OND MABWYSIADU AGWEDD FEDDYLIOL NEWYDD A GWEITHIO'N WAHANOL.

NID BETH RYDYM YN EI WNEUD SY'N GORFOD BOD YN WAHANOL, OND SUT RYDYM YN EI WNEUD.

Mae Chwaraeon Cymru eisoes yn datblygu dull ffres a newydd o weithredu o ran cyflwyno'r weledigaeth. Ac mae'r dull hwn o weithredu'n cynrychioli newid mawr:

1. Bydd yn **defnyddio ei ddiwylliant o 'her fawr, cefnogaeth fawr' gyda'i waith â'i bartneriaid**; gan symud y tu hwnt i weithgarwch cyswllt traddodiadol, at berthynas lle bydd yn ei gwneud yn haws i bartneriaid bennu 'uchelgeisiau afresymol'.

2. Bydd yn **gweithio'n gadarnhaol gyda'r chwaraeon hynny sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf**; y rhai sydd wedi'u hanelu at newid mawr o ddarparu cyfleoedd nid ar gyfer y cannoedd, ond y miloedd ac yn **cysoni ei fuddsoddiadau yn unol â hynny** – yn seiliedig ar dystiolaeth o sicrhau canlyniadau mawr – er mwyn sicrhau cymaint o effaith ag y bo modd.

3. Bydd Chwaraeon Cymru a'r sector yn gweithio'n fwy blaengar wrth gyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys rhoi **mwy o bwyslais ar yr angen am weithio gyda'r rhai mwyaf effeithiol wrth gyflwyno**, o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ehangach.

4. Bydd yn **canolbwyntio ar alluogi newid sylweddol yng ngraddfa'r gweithgarwch cymunedol** fel bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon yn lleol.

5. Bydd yn **adeiladu ar ei ymroddiad o'r newydd i gynyddu'r sylfaen o wirfoddolwyr** drwy roi sylw cadarnhaol i recriwtio, hyfforddi, defnyddio a dal gafael ar wirfoddolwyr.

Mae'r sector chwaraeon ehangach ar y llwybr at adolygu ei ddull o gyflwyno hefyd; un sy'n cynrychioli ymroddiad cynyddol i fod yn perfformio'n hynod dda a chydnabod pwysigrwydd cydweithio ag eraill. Mae'r diwylliant newydd hwn yn ymwneud â'r canlynol:

- Pennu **uchelgeisiau afresymol**
- Datblygu strategaethau'n **seiliedig ar berfformiad** er mwyn cyflwyno'r weledigaeth hon
- **Dosbarthu'r arweiniad**, lle ceir swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar gyfer pawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r weledigaeth, a lle mae pobl yn cael eu hannog i fod yn atebol am eu gwaith
- Darparu **adborth o safon uchel** i'n galluogi i wella'n barhaus
- **Gweithio fel un**.

3. Cyflwyniad

Mae'r sector chwaraeon yn credu bod angen newid mawr yn y dull o gynllunio, datblygu a hybu cyfleoedd chwaraeon ac yn rhannu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru, a fynegir yn Dringo'n Uwch (2005) a Creu Cymru Egnïol (2009):

"Cymru egnïol, iach a chynhwysol lle mae chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol yn darparu llwyfan cyffredin ar gyfer cyfranogiad, hwyl a chyflawni, gan uno cymunedau a'r genedl a lle defnyddir amgylchedd arbennig Cymru mewn ffordd gynaliadwy er mwyn meithrin mwy o hyder ynom ni ein hunain."

Yn unol â hyn, rydym ni fel sector wedi datblygu gweledigaeth gysylltiedig yn canolbwyntio'n llwyr ar rôl chwaraeon mewn cyflwyno agenda gweithgarwch corfforol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r weledigaeth hon yn defnyddio'r gair 'chwaraeon' yn eu hystyr ehangaf, gan ddefnyddio diffiniad Siarter Chwaraeon Cyngor Ewrop o chwaraeon:

"...Pob math o weithgarwch corfforol sydd, drwy gyfranogiad achlysurol neu drefnus, yn ceisio mynegi neu wella ffitrwydd corfforol a lles, perthnasoedd cymdeithasol ffurfiol neu sicrhau canlyniadau mewn cystadlaethau ar bob lefel."



Yn cefnogi ac yn ffurfio cyswllt rhwng strategaethau presennol Llywodraeth y Cynulliad a Chwaraeon Cymru, mae'r weledigaeth hon yn darparu llwybr ar gyfer cenedl sydd â chwaraeon wrth galon ei gwaith, gan sicrhau pleser a boddhad i unigolion, synnwyr o undod a hyfywedd i gymunedau a balchder ac enw da i Gymru fel cenedl chwaraeon.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r weledigaeth wedi cymryd blwyddyn. Datblygodd Chwaraeon Cymru'r syniadau'n fewnol a rhannodd y rhain â'i bartneriaid er mwyn helpu i adeiladu rhywbeth cydlynol y gall y sector cyfan uno y tu ôl iddo, a gweithio tuag ato ar y cyd.

Ym mis Mai 2010, dechreuodd Chwaraeon Cymru siarad â'i bartneriaid yn ei Gynhadledd Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rhanddeiliaid, gan amlinellu ei weledigaeth arfaethedig ar gyfer chwaraeon, ei ddyheadau ar gyfer cynnwys plant a chynnal eu diddordeb a'u cyfranogiad nes eu bod yn oedolion a'i uchelgais ar gyfer rhoi hwb i berfformiad Cymru mewn chwaraeon elitaidd. Anogodd y cynadleddwyr i feddwl yn wahanol, gwella eu gêm ac ymroi i'r syniad bod newid radical yn ein dull o gyflwyno'n hanfodol.

Ymatebodd y partneriaid yn dda i'r weledigaeth a'r her hon. Ers y gynhadledd, mae cyfnod ffurfiol o ymgynghori â phartneriaid wedi arwain at gefnogaeth hynod gadarnhaol i weledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon. Mae'r ddogfen hon yn mynegi:

- Gweledigaeth i'r sector o Gymru fel cenedl chwaraeon falch, a gefnogir gan ddyhead i gael pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes a Chymru'n genedl o bencampwyr
- Crynodeb byr o dirlun chwaraeon heddiw
- Effaith chwaraeon ar fywydau pobl, cymunedau a'n hunaniaeth genedlaethol, a'u cyfraniad atynt
- Sut fyddwn ni'n creu newid allweddol mewn cynllunio, trefnu a chyflwyno
- Blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yng Nghymru

4. Bethrydym yn ei wybod

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflawni llawer.

Mae **cyfranogiad plant[1] mewn clybiau chwaraeon** wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf:

cynnydd o 72% yn 2000 i 80% yn 2009.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf nodedig ymhlith cyfranogiad y merched mewn amgylchedd clwb:

o 67% i 78% yn ystod yr un cyfnod.

Hefyd, mae **cyfranogiad pobl ieuainc[2] mewn chwaraeon allgyrsiol** wedi cynyddu:

o 72% yn 2001 i 77% yn 2009.

Unwaith eto, rydym wedi gweld cynnydd mwy ymhlith cyfranogiad y merched:

cynnydd o 69% i 76%[3].

Mae'r cynnydd yng nghyfranogiad plant a phobl ieuainc mewn chwaraeon, ac yn arbennig cyfranogiad y merched mewn chwaraeon, yn brawf o'r dull targedu a ddefnyddiwyd gennym, drwy gyfrwng rhaglenni fel ***Campau'r Ddraig, Genethod yn Gyntaf a 5x60***, er mwyn annog pobl ieuainc i fod yn fwy egnïol.

Mae hwn wedi bod yn gyflawniad sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr o amser; ein huchelgais yw gwella ar hyn.

Rydym yn gwybod bod:

- Bwlch rhwng y rhywiau o ran amledd cyfranogiad merched a bechgyn mewn chwaraeon
- Pobl ieuainc yn cymryd llai o ran wrth fynd yn hŷn
- Llai o bobl ieuainc yn cymryd rhan y tu hwnt i 15 oed
- Y gostyngiad mewn cymryd rhan yn cael ei deimlo'n gryfach gan ferched.

O ran y boblogaeth o oedolion, rydym yn ymwybodol o'r canlynol :

- Mae'r cyfranogiad mewn chwaraeon wedi aros yn statig yn ystod y deng mlynedd diwethaf.
- Mae'r aelodaeth o glybiau chwaraeon yr un fath ag yr oedd yn 1998.
- Nid oes unrhyw wahaniaethau daearyddol mewn cymryd rhan mewn chwaraeon ledled Cymru.
- Mae mwy o ddynion yn cymryd rhan mewn chwaraeon na merched.
- Mae'r cyfranogiad mewn chwaraeon yn gostwng gydag oedran.
- Mae'r gostyngiad mewn cyfranogiad ymhlith pobl ieuainc yn parhau pan maent yn oedolion, gyda gostyngiad mawr rhwng y grŵp oedran 15-24 a'r grŵp oedran 25-34.
- Mae'r cymhelliant ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon yn newid gydag oedran; mae rhesymau iechyd yn dod yn fwy a mwy pwysig wrth i chi fynd yn hŷn.
- Mae'r grwpiau cymdeithasol-economaidd is yn cymryd rhan mewn llai o chwaraeon ac yn llai tebygol o fod yn aelodau o glybiau chwaraeon na'r grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch.
- Nid yw'r ddarpariaeth o weithgareddau bob amser yn atyniadol i bobl o gefndir diwylliannol neu grefyddol penodol.
- Mae'r cyfranogiad mewn clybiau hamdden a ffitrwydd yr un fath yn fras ar gyfer dynion a merched.
- Mae llawer mwy o ddynion yn cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon pur.

1: Plant: 7-11 oed.

2: Pobl Ieuainc: 11-16 oed.

3: Chwaraeon Cymru, Arolwg 2009 ar Bobl Ieuainc Egnïol.

4: Chwaraeon Cymru, Arolwg 2008-09 ar Oedolion Egnïol.

5. Effaith Chwaraeon

CHWARAEON YN SIAPIO DIWYLLIANT, HUNANIAETH A PHROFFIL RHYNGWLADOL CYMRU

Rydym yn gweld chwaraeon fel llawer mwy na dim ond rhan o ffabrig diwylliannol Cymru. Mae chwaraeon yn ein *diffinio* ni fel cenedl.

Nid oes llawer o ffurfiau diwylliannol eraill mewn cystal sefyllfa â chwaraeon i fynegi a dathlu ein hunaniaeth genedlaethol. Mae emosiynau, lliwiau cenedlaethol, logos, caneuon a chystadlaethau chwaraeon i gyd yn ei wneud yn gyfrwng delfrydol ar gyfer uno'r genedl gyfan y tu cefn i un nod cyffredin. Y synnwyr hwnnw o angerdd; mae'r cyffro'n gwbl unigryw.

TYSTIOLAETH YN SAIL I BOLISÏAU AC ARFERION

Yn y byd chwaraeon, mae gennym gyfoeth o ddata ar flaenau ein bysedd. Yr hyn sydd raid i ni ei wneud yw gwneud gwell defnydd o'r data hynny er mwyn ein helpu i ddeall sut mae'r tirlun chwaraeon yn edrych waeth ar ba raddfa ddaearyddol rydym yn gweithredu; er enghraifft, pwy sydd neu sydd ddim yn cymryd rhan mewn chwaraeon, a sut mae'r ddarpariaeth chwaraeon yn edrych? Dylem ddefnyddio'r data hyn er mwyn herio a siapio ein polisïau a'n harferion; bydd o gymorth i ni wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth am yr hyn allwn ei wneud i uno cenedl chwaraeon falch, a dangos ein bod yn gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o arian cyhoeddus.

MANTEISION CHWARAEON

Er bod y weledigaeth hon yn canolbwyntio ar wella a datblygu chwaraeon Cymru, mae'n cydnabod gallu chwaraeon i gael dylanwad cadarnhaol ar lu o ddatblygiadau personol, cymunedol a chenedlaethol. Boed yn annog ac yn meithrin ffyrdd iach o fyw, yn rhoi hwb i'r economi genedlaethol a lleol drwy gynnal digwyddiadau, yn ailgynnwys pobl ieuainc sydd wedi dod o'r ysgol neu'n darparu sgiliau am oes i bobl drwy gymryd rhan mewn chwaraeon neu hyfforddi chwaraeon, gall y rhai ohonom sy'n gweithio yn y byd chwaraeon weld y dylanwadau cadarnhaol hyn yn ddyddiol a thynnu sylw at bobl a chymunedau y mae chwaraeon wedi'u helpu i ddod at ei gilydd a ffynnu.

Rydym eisiau gweld y weledigaeth hon yn helpu i gyflwyno'r achos dros chwaraeon a'r ffyrdd amrywiol mae'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar fywydau pobl.

Ymhlith manteision pellgyrhaeddol chwaraeon mae:

IECHYD A LLES

Mae'r manteision corfforol a meddyliol a geir i iechyd o ymarfer yn rheolaidd wedi helpu i leihau'r risg o gyflyrau fel afiechyd y galon a'r clefyd siwgr, a delio â gordewdra. Rydym hefyd yn credu'n llwyr yn y cysyniad o gorff iach: meddwl iach. Profwyd bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn effeithiol i atal afiechydon cronig niferus, yn cynnwys afiechyd cardiofasgiwlar, y clefyd siwgr, cancr, gordyndra, gordewdra, iselder ac osteoporosis. Gall natur gymdeithasol y rhan fwyaf o weithgareddau chwaraeon helpu i annog a chefnogi, gan sicrhau'r amledd a'r dyfalbarhad sydd ei angen mewn gweithgarwch corfforol i sicrhau'r manteision corfforol a seicolegol i iechyd. Mae chwaraeon yn arbennig o bwysig i blant a phobl ieuainc, oherwydd cysylltir lefel uwch o ffitrwydd corfforol â phroffil cardiofasgiwlar uwch, a risg is o ddatblygu afiechydon cardiofasgiwlar pan yn hŷn.

DATBLYGIAD ECONOMAIDD A THWRISTIAETH

Gall cynnal pencampwriaethau neu gemau proffil uchel, neu ddigwyddiadau chwaraeon mawr eraill, arwain at fudd economaidd, boed yn sgil y gwariant a geir o ganlyniad gan dwristiaid neu drwy i gwmnïau lleol sicrhau cytundebau i gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau cysylltiedig â chynnal y digwyddiad ei hun. Mae chwaraeon yn gyfrannwr allweddol at yr economi o ran y gwerth a ychwanegir. Yn 2004, amcangyfrifir bod y gweithgarwch economaidd cysylltiedig â chwaraeon wedi cyfrannu £704 miliwn at economi Cymru. Gall chwaraeon gyfrannu arbedion at yr economi hefyd, drwy sicrhau llai o absenoldeb o waith a llai o alw am adnoddau iechyd.

CYFLAWNIAD ADDYSGOL, SGILIAU A CHYFLOGAETH

Gall chwaraeon fod o gymorth i ddarparu cyd-destun ar gyfer dysgu sgiliau bywyd, fel: y gallu i berfformio dan bwysau; y gallu i ddatrys problemau; y gallu i osod a chyrraedd nodau; ac ymroddiad a hunangymhelliant. Mae amlygrwydd chwaraeon i lawer o bobl ieuainc yn eu galluogi i gael effaith anuniongyrchol ar ddatblygiad gwybyddol ac emosiynol, a all gyfrannu at well perfformiad academaidd. Mae chwaraeon yn darparu cyflogaeth, yn uniongyrchol ac fel carreg gamu. Mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos bod chwaraeon yn darparu 23,200 o swyddi yng Nghymru, cynnydd o bron i 20% ar yr arolwg blaenorol. Gallant hefyd ddarparu sgiliau trosglwyddadwy i gyfranogwyr, gan eu helpu i wella eu siawns o gael gwaith.

CYDLYNEDD CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Dangosir potensial chwaraeon i wella cyfalaf cymdeithasol gan y ffaith bod 23% o'r sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a di-elw ym Mas Data Cymru Gyfan yn gyrff chwaraeon a hamdden: y grŵp mwyaf o ddigon. Gall cyfleusterau chwaraeon wneud cyfraniad pwysig at is-strwythur ffisegol cymunedau, gan ddarparu ffocws cymdeithasol ar gyfer cymunedau a chael effaith bositif ar farn pobl am eu cymuned.

CODI HWYLIAU

Ymhlith y manteision gorau i'w cael o gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol mae lles seicolegol – y teimlad hwnnw o fod mewn hwyliau da. Gall ymarfer fod yn effeithiol wrth wella lles meddyliol y cyhoedd, yn bennaf drwy godi hwyliau a gwneud i bobl deimlo'n well am eu cyrff.

Mae chwaraeon yn cynnig pleser ac yn codi safon byw'r unigolyn a'r gymuned. Mae o gymorth i ysgogi balchder lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, er enghraifft, llwyddiant ysgubol athletwyr Cymru yng Ngemau Olympaidd a Pharalympaidd Beijing, a greodd ymdeimlad braf o falchder a llwyddiant ledled Cymru.

AMGYLCHEDDOL

Gall chwaraeon gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol, er enghraifft, drwy gadw gofod agored ar gyfer caeau chwarae a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt ar gyrsiau golff. Gall prosiectau chwaraeon adfer tir diffaith a gwella dymunoldeb ffisegol a gweledol yr ardaloedd difreintiedig. Mae'r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy'n ganolog i holl fentrau a chynlluniau cyllido Chwaraeon Cymru. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod gwell defnydd yn cael ei wneud o gyfleusterau a danddefnyddir, neu wella cyfleusterau presennol, yn hytrach nag adeiladu rhai newydd.

EFFAITH CHWARAEON AR BAWB

Mae'r effaith bwerus y gall chwaraeon ei chael ar ffactorau eithrio cymdeithasol yn cael ei chydnabod fwy a mwy. I oedolion, yn enwedig pobl hŷn, gall chwaraeon gynnig ffynhonnell o ryngweithio cymdeithasol, gan helpu i atal ynysu cymdeithasol, a all fod yn niweidiol i iechyd a lles y meddwl. Ceir tystiolaeth bod chwaraeon nid yn unig yn cynnig manteision i'r merched hynny sydd mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol ond, hefyd, bod merched yn ymateb i ddarpariaeth briodol.



6. Blaenoriaethau Ar Gyfer Chwaraeon Yng Nghymru

Mae'r dyhead a'r angerdd, ar y cyd, i symud chwaraeon yng Nghymru i'r lefel nesaf yn ein rhoi mewn sefyllfa gref ond, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n rhaid i ni fod mor flaengar ag y bo modd yn ein gwaith o sicrhau'r gorau o'r bunt yma yng Nghymru a sicrhau ffocws cryf, cystal ag y gallwn ni, i'n buddsoddiadau, o ran adnoddau ariannol a dynol.

Y blaenoriaethau isod yw'r blociau adeiladu ar gyfer creu Cymru lle mae chwaraeon wrth galon pob cymuned, yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pawb. Dim ond drwy gydweithio mae cyflawni hyn, a'n herio ein gilydd yn gyson i edrych ar ffyrdd newydd o gyflwyno chwaraeon.

I Chwaraeon Cymru, mae hefyd yn golygu gweithio ar draws adrannau gan gysoni ein gwaith i gyflwyno ar themâu penodol ar draws y **llwybr chwaraeon:**



Er mwyn ein helpu gyda'n hymdrechion, rydym ni, fel sector, wedi datgan yr angen am ganolbwyntio ar 5 maes blaenoriaeth:

BLAENGAREDD MEWN CHWARAEON

Mae gan Gymru sector chwaraeon sy'n croesawu cydweithio, yn annog ffyrdd newydd o gyflwyno cyfleoedd er mwyn cynyddu cyfranogiad ac yn gwella perfformiad elitaidd.

- Partneriaid yn cydweithio i greu newid mawr mewn cyfranogiad a pherfformiad mewn chwaraeon yng Nghymru
- Cydweithio er mwyn canfod rhwystrau'n atal gwelliant a'n herio ein hunain i feddwl yn greadigol ac yn flaengar am yr atebion
- Datblygu ar y cyd ddiwylliant o berfformio'n dda yn y sector
- Edrych y tu hwnt i bartneriaid traddodiadol a datganoli'r gwaith o wneud penderfyniadau
- Cyflwyno'r achos dros effaith chwaraeon ledled amrywiaeth o agendâu cenedlaethol a lleol
- Ymroi i ddull 'Tîm Cymru' o weithredu drwy sicrhau cydberchnogaeth ar bob her, ateb a chanlyniad

Mae angen newid mawr er mwyn cynyddu cyfranogiad a gwella perfformiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod gwahanol bartneriaid yn wynebu gwahanol fathau o her, ond mae'n rhaid dod â'r sector at ei gilydd i feddwl am atebion ar y cyd. Mae'n rhaid i ni gydnabod pob her yn y dyfodol a'u hwynebu'n ddewr, gan gydweithio er mwyn cryfhau'r sector a llais chwaraeon. Trwy wneud hynny, mae'n rhaid i ni ein herio ein hunain i feddwl yn fwy creadigol a blaengar am sut rydym yn trefnu ac yn cyflwyno chwaraeon yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod peth arfer da ar waith, sydd angen ei gynyddu er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, mae'n rhaid i'r sector hefyd chwilio am ffyrdd newydd o weithio os yw'n ddidwyll am ennyn cymunedau i gymryd rhan mewn chwaraeon a dal ati i wneud hynny.

Fel sector, mae'n rhaid i ni wella'r cyswllt rhwng asiantaethau partner yn lleol ac yn genedlaethol, heb gyfyngu ein gweithgarwch i'r partneriaid hynny sydd eisoes yn ymwneud â chyflwyno chwaraeon. Rydym yn cydnabod bod gan eraill, fel cymdeithasau ardal a chwmnïau masnachol, botensial mawr i'n helpu i wireddu ein nodau ar y cyd. Bydd gweithio ag eraill yn dod â ni'n nes at roi sylw i'r bylchau a'r ffactorau allweddol sy'n parhau'n rhwystrau'n atal pobl rhag cymryd rhan. Gyda'n gilydd, mae'n rhaid i ni ddatblygu diwylliant

newydd sy'n perfformio'n hynod dda yn y sector, lle mae pob sefydliad sy'n gysylltiedig â datblygu, cyflwyno a hybu chwaraeon yn ymroddedig i bennu gweledigaeth heriol. Mae'r ffordd rydym yn meddwl a'r ffordd rydym yn gweithio'n sylfaenol yma. Bydd Chwaraeon Cymru'n cefnogi hyn drwy weithredu mwy fel galluogwyr a chynghorwyr, gan ychwanegu gwerth at waith ei bartneriaid drwy chwarae rôl y 'ffrind allweddol'.

Rydym eisiau datganoli'r gwaith o wneud penderfyniadau, gan adeiladu ymhellach ar yr egwyddor o 'atebion lleol i anghenion lleol'. Bydd Chwaraeon Cymru'n rhoi grym i'w bartneriaid drwy ddarparu iddynt wybodaeth ac adnoddau i gyflwyno ar gyfer ein cymunedau.

Rydym eisiau gweld rhwydweithiau cymunedol lleol yn cael eu datblygu ac yn dod ag adnoddau ysgolion, clybiau a chanolfannau hamdden at ei gilydd er mwyn cynyddu cyfranogiad, gan ddatgan pwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno newid mawr yn y ddarpariaeth leol a chael ein harwain gan anghenion ein cymunedau. Hefyd, mae'n rhaid i'r sector wneud gwell defnydd o'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd gennym er mwyn cynllunio sut rydym am i'n tirlun chwaraeon edrych ar lefel leol a chenedlaethol.

Er mwyn sicrhau'r newid hwn ledled y sector, bydd raid i ni i gyd edrych ar y perthnasoedd sydd gennym gyda'n gilydd, oddi mewn i'r sector a'r tu allan iddo. Hefyd, bydd raid sicrhau bod y perthnasoedd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau mwy o gymryd rhan a gwell perfformiad.

Rydym eisiau ymgorffori dull "Tîm Cymru" o weithredu mewn perthynas â chwaraeon; pawb yn cydweithio er mwyn ymateb i'r her, gan ddatblygu atebion ar y cyd a rhannu nodau a chanlyniadau. Drwy ddatblygu'r diwylliant tîm cryf hwn, gallwn gyflawni er lles pob un cymuned yng Nghymru.

SGILIAU AR GYFER BYWYD MEWN CHWARAEON

Darparu i bob plentyn ac unigolyn ifanc sgiliau a hyder o oedran ifanc i fod yn llythrennog yn gorfforol drwy gyfrwng profiadau chwaraeon ysgogol, o safon uchel.

- Ffocws ar ddysgu sgiliau sylfaenol; paratoi plant am oes
- Rhoi'r un statws â rhifedd a llythrennedd i sgiliau corfforol
- Gwell ymroddiad gan benaethiaid ac ysgolion i addysg gorfforol a chwaraeon
- Gweithgarwch yn perthyn i'r ysgolion yn cael ei yrru gan bobl ieuainc
- Datblygu sgiliau chwaraeon i ysbrydoli cyfranogiad am oes

Drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, mae plant a phobl ieuainc yn dysgu llawer o sgiliau sy'n eu paratoi ar gyfer eu bywyd. Rydym eisiau gweld pob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru'n dod yn hyderus yn gorfforol, gan feddu ar sgiliau sylfaenol o oedran ifanc. Bydd dysgu'r sgiliau sylfaenol hyn iddynt yn eu galluogi i ddewis o blith amrywiaeth ehangach o chwaraeon drwy gydol eu hoes.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn credu bod raid i sgiliau corfforol gael yr un statws mewn ysgolion â rhifedd a llythrennedd, fel a amlinellwyd ym mholisi Llywodraeth y Cynulliad. Byddai hyn yn cydnabod bod annog datblygiad corfforol yn darparu llwyfan pwysig ar gyfer annog gweithgarwch corfforol drwy gydol eu hoes. Er ein bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran codi proffil Addysg Gorfforol (AG) mewn ysgolion, rydym angen mwy o athrawon sy'n gallu dysgu AG ac yn hyderus ac yn frwdfrydig wrth wneud hynny.

Rydym eisiau gweld mwy o ymroddiad i hyfforddi athrawon, gyda dysgu AG mewn ysgolion yn defnyddio grym chwaraeon i addysgu ac ysbrydoli plant a phobl ieuainc, yn enwedig y rhai sy'n datgysylltu o'r ysgol. Mae angen mwy o gydnabyddiaeth i'r sgiliau y mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn eu dysgu i blant a phobl ieuainc, sgiliau sy'n ddefnyddiol drwy gydol eu hoes. Rydym eisiau gweld ysgolion yn defnyddio chwaraeon fel cyfrwng nid yn unig i hybu ffyrdd o fyw iach, ond hefyd i feithrin hyder, annog arweiniad a gwaith tîm ac adeiladu sgiliau am oes. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r pwyslais fod ar ysbrydoli gweithgarwch sy'n perthyn i'r ysgolion ac yn cael ei yrru gan y bobl ieuainc, gan roi blaenoriaeth i gynnwys ac ennyn diddordeb pobl ieuainc.

Mae gan addysg ran allweddol i'w chwarae ac rydym eisiau gweld rhaglenni llwyddiannus lle dysgir sgiliau symud, cyflymder, ystwythder, cryfder a hyblygrwydd corff i blant, fel bod ganddynt hyder i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau a fydd yn eu cyffroi a'u denu i gymryd rhan am oes. Bydd hyn yn cael effaith ar y pŵl o dalent newydd fydd ar gael, i'w meithrin i sicrhau llwyddiant mewn chwaraeon, ac yn cael effaith ar ddyhead pobl ieuainc i ddal ati i gymryd rhan mewn chwaraeon pan yn oedolion. Fel cenedl, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym ni, gan ddatblygu plant a phobl ieuainc a all ragori mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau. Mae hyn yn allweddol os am gynnal llwyddiant mewn chwaraeon.

CYMUNEDAU CHWARAEON

Mae gennym gymunedau lle mae chwaraeon yn allweddol ynddynt, yn cynnig cyfleoedd unedig i bob plentyn ac unigolyn ifanc gymryd rhan mewn o leiaf pump awr o chwaraeon diogel o safon uchel bob wythnos a chynnal eu cyfranogiad drwy gydol eu hoes fel oedolyn.

- O leiaf 5 awr o weithgarwch chwaraeon yr wythnos i bob plentyn ac unigolyn ifanc
- Cyfleoedd amrywiol ac atyniadol
- Newid mewn ffocws o weithgarwch chwaraeon yn yr ysgol i ddatblygu cyfleoedd cynaliadwy yn y gymuned
- Darpariaeth gwricwlaidd, allgyrsiol a chymunedol unedig
- Gwell ffocws ar greu cyfleoedd mewn gwirfoddoli a hyfforddi
- Sicrhau bod pobl ieuainc yn dal ati i gymryd rhan
- Cynyddu'r aelodaeth o glybiau
- Cyfleoedd cystadleuol a hamdden
- Dull strategol o gynllunio a datblygu cyfleusterau chwaraeon
- Chwaraeon yn gyfrwng i adeiladu cymunedau cryf

Rydym eisiau gweld plant a phobl ieuainc yn gallu cymryd rhan mewn o leiaf pump awr o weithgarwch chwaraeon bob wythnos, yn cael ei gyflwyno nid yn unig yn eu hysgol neu'n gysylltiedig â hi, ond yn y cymunedau hefyd. Rydym eisiau creu Cymru lle mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn rhan naturiol o fywydau plant a phobl ieuainc, yn rhywbeth sy'n cael ei wneud yn ddigwestiwn bron. Credwn fod chwaraeon eisoes wrth galon nifer fawr o gymunedau yng Nghymru ac rydym eisiau adeiladu ar hyn drwy sicrhau bod cysylltiadau cryf yn cael eu ffurfio rhwng ein hysgolion, ein colegau, ein cyfleusterau hamdden lleol a'n clybiau.

Ein dyhead yw helpu i greu amgylcheddau byw lle mae'r aelodaeth o glwb yn dal ati i dyfu a lle ceir amrywiaeth eang o chwaraeon, o dimau cystadleuol i weithgareddau er diben hamdden, a'r cyfan wedi'i gynllunio i ysbrydoli pobl ieuainc i fod yn egnïol a pharhau felly am oes gyda chydbwysedd rhwng chwaraeon er diben hamdden a chwaraeon cystadleuol i gynnwys a herio pawb. Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae'n rhaid i'r partneriaid i gyd edrych yn feirniadol ar eu dull o weithio, gan sicrhau ein bod i gyd yn adnabod anghenion lleol ac yn ymateb iddynt.

Mae'r rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol wedi dangos cynnydd yn nifer y bobl ieuainc sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon. Serch hynny, mae ein hystadegau'n dangos gostyngiad yng ngweithgarwch pobl ieuainc wedi iddynt adael addysg ffurfiol. Er mwyn rhoi sylw i hyn, a sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud i gynnwys plant a phobl ieuainc drwy gyfrwng y system addysg yn arwain at oes o chwaraeon, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cyswllt rhwng y ddarpariaeth yn yr ysgol a'r ddarpariaeth yn y gymuned yn gryfach.

Mae Chwaraeon Cymru'n cydnabod bod ei adnoddau ar hyn o bryd yn rhoi mwy o gefnogaeth i ddarpariaeth mewn ysgolion a'r ddarpariaeth allgyrsiol. Bydd yn newid hyn i ganolbwyntio mwy ar annog gwell cyswllt ledled y ddarpariaeth chwaraeon yn y gymuned, gydag ysgolion yn rhan annatod o'r ddarpariaeth hon. Mae'n rhaid i'r partneriaid i gyd dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd am ffurfio a chynnal cyswllt rhwng yr ysgolion a'r cymunedau.

Mae cyfleusterau'n chwarae rhan hanfodol mewn annog cyfranogiad a chefnogi datblygiad rhagoriaeth. Mae'n rhaid wrth ddull strategol o gynllunio a datblygu ein cyfleusterau chwaraeon yng Nghymru. Hefyd, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r amgylchedd naturiol sydd gennym yng Nghymru i ddatblygu cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae cefnogi'r defnydd gorau posibl o gyfleusterau ar gyfer cyfranogiad más a sicrhau bod gennym gyfleusterau sy'n galluogi i'n hathletwyr gorau hyfforddi a rhagori'n hollbwysig. Rydym yn gweld Cymru lle mae ein cyfleusterau chwaraeon yn destun balchder i'n cymunedau a'n cyfleusterau elitaidd yn destun balchder i'n cenedl. Rydym yn gwybod y bydd raid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Mae'n rhaid i ni wynebu bob her a gwneud penderfyniadau dewr yn seiliedig ar dystiolaeth ac angen. Hefyd, mae'n rhaid i ni annog cydweithio agosach rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn rheoli cyfleusterau â'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno canlyniadau datblygu chwaraeon.

Byddwn yn parhau i geisio cael mwy o oedolion i ymwneud â chwaraeon, boed drwy gymryd rhan neu drwy eu recriwtio fel gwirfoddolwyr. Mae angen cydnabod y siwrnai chwaraeon y mae pobl yn teithio arni drwy gydol eu hoes. Efallai mai nid y gamp sy'n eu denu gyntaf yn yr ysgol fydd y gamp y byddant eisiau cymryd rhan ynddi am weddill eu bywyd. Mae'n rhaid i ni ddeall anghenion cymunedau, yn blant ac oedolion, fel ein bod yn gallu sicrhau bod cyfleoedd hwylus a chynhwysol ar gael, lle bo hynny'n briodol. Mae denu oedolion yn ôl at chwaraeon yn her arbennig a bydd raid i ni i gyd fod yn fwy blaengar yn ein dull o weithredu.

Rydym hefyd eisiau parhau i ddatblygu amrywiaeth eang o gyfleoedd i gymryd rhan er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon waeth beth yw eu hoedran, eu rhyw, eu rhywioldeb, eu hethnigrwydd a'u hanabledd. Rydym eisiau i bawb sydd â diddordeb mewn chwaraeon allu cymryd rhan mewn chwaraeon a mwynhau eu manteision. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ganfod a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n atal cyfranogiad fel sector, gan edrych ar beth sy'n gweithio mewn mannau eraill a pheidio ag ofni rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol.

RHAGORIAETH MEWN CHWARAEON

Rydym yn genedl sy'n rhagori wrth feithrin talent chwaraeon ac yn cyflwyno llwyddiant parhaus ar y llwyfan rhyngwladol.

- Datblygu uchelgeisiau afresymol mewn chwaraeon, yn unol â gwledydd chwaraeon llwyddiannus eraill
- Gweithio â'r campau sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau llwyddiant mewn chwaraeon
- Cefnogi chwaraeon i wella a chodi eu gêm
- Datblygu amgylchedd hyfforddi cadarn a deinamig
- Creu strwythur clwb a chystadlu a all gynnwys pobl ieuainc am oes
- Gwella ein systemau Adnabod Talent
- Buddsoddi mewn mwy o hyfforddwyr a gwell hyfforddwyr

O ystyried maint Cymru fel gwlad, rydym yn gwneud yn llawer gwell na'r disgwyl o ran ein llwyddiant mewn chwaraeon ac mae chwaraeon yr anabl yn enghraifft ragorol o hyn. Ond mae'n rhaid i ni ddal ati i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n talent a'n hadnoddau. Rydym eisiau adeiladu ar ein llwyddiannau a chreu fframwaith i sicrhau llwyddiant parhaus. Nid yw sefyll yn llonydd yn opsiwn, oherwydd bydd gwledydd eraill yn ceisio ein dal a rhagori arnom. Rydym eisiau gweld llwyddiant heddiw'n ysbrydoli llwyddiant yfory. Bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio gyda'r chwaraeon hynny a fydd yn cynnig y cyfle gorau i ni gyrraedd ein targedau, gan adolygu ein potensial yn gyson a chefnogi chwaraeon eraill i wella. Rydym eisiau cael ein hystyried yn yr un categori ag Awstralia a Seland Newydd, gwledydd sy'n fyd-enwog am eu hymroddiad i chwaraeon a'u hymgyrch i lwyddo.

Bydd Chwaraeon Cymru'n darparu'r amgylchedd a'r gefnogaeth y mae chwaraeon ac athletwyr eu hangen i lwyddo, yn cynnwys sicrhau bod gennym amgylchedd hyfforddi cadarn a deinamig. Rydym eisiau i'n cyrff rheoli fod yr un mor uchelgeisiol ac, o'r herwydd, bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio â hwy er mwyn datblygu strwythurau a rheolaeth effeithiol mewn chwaraeon.

Rydym angen strwythur clwb a chystadlu yn ein campau sy'n sicrhau'r gorau o'n dyhead i gael pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes. Er mwyn gwneud yn fawr o athletwyr ieuainc talentog, mae'n rhaid i ni ddatblygu ein systemau adnabod talent ymhellach, er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth arferion da ac yn cefnogi'r athletwyr hyn drwy'r system, gan eu paratoi ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Bydd sicrhau bod llwybrau perfformio cadarn yn eu lle i feithrin talent i ragori'n allweddol bwysig. Mae ein clybiau'n chwarae rhan bwysig mewn datblygu talent y dyfodol.

Rydym yn cydnabod yr angen am fwy o hyfforddwyr a gwell hyfforddwyr. Byddwn yn cydweithio er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r nod hwn, gan annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru, drwy hyfforddi a gwirfoddoli er mwyn sicrhau ein bod yn gallu creu amrywiaeth o gyfleoedd i bawb.

MEITHRIN GWEITHLU MEDRUS AC ANGERDDOL

Cefnogir pawb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, boed yn broffesiynol neu'n wirfoddol, i drosglwyddo eu sgiliau a'u hangerdd dros chwaraeon i bobl Cymru.

- Datblygu gwell arweiniad oddi mewn i Chwaraeon Cymru ac yn y sector chwaraeon ehangach
- Cyfleoedd hyfforddi o safon i bawb sy'n gweithio yn y byd chwaraeon
- Bod yn effeithiol wrth recriwtio, dal gafael ar a defnyddio gwirfoddolwyr a hyfforddwyr
- Hyfforddiant a chefnogaeth briodol i helpu i ehangu'r sylfaen o wirfoddolwyr

Er mwyn cyflwyno ein gweledigaeth, rydym yn cydnabod yr angen am sicrhau ein bod yn recriwtio ac yn cefnogi ein gweithlu chwaraeon. Boed yn gweithio'n broffesiynol neu'n wirfoddol, fel athro AG, hyfforddwr neu wirfoddolwr sy'n helpu i weinyddu tîm lleol, rydym eisiau gweld Cymru lle mae pobl yn cael cefnogaeth i gymryd rhan mewn chwaraeon. Rydym yn gwybod o siarad â'r rhai sy'n ymwneud â chwaraeon bod manteision helaeth i'w cael o weithio yn y maes hwn, boed yn wirfoddol neu'n broffesiynol.

Rydym eisiau sicrhau bod y rhai sy'n gweithio'n broffesiynol mewn chwaraeon yn derbyn cefnogaeth, a llwybr gyrfaol sy'n eu helpu i ragori. Gall hyn olygu galluogi athrawon i fagu hyder i gyflwyno sesiynau AG neu ddarparu cefnogaeth i hyfforddwyr i ennill eu cymhwyster nesaf – a'r canlyniad fydd gweithlu o safon byd.

Wrth weithredu hyn, rydym yn ymwybodol iawn bod y rhan fwyaf o glybiau chwaraeon lleol neu'r cyfleoedd lleol a gyflwynir mewn cymunedau'n dibynnu ar fyddin o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser am ddim er mwyn trosglwyddo eu gwybodaeth am chwaraeon a'u hangerdd drostynt. Rydym nid yn unig eisiau cynyddu nifer y gwirfoddolwyr mewn chwaraeon, o hyfforddwyr i weinyddwyr, ond hefyd darparu'r gefnogaeth a'r hyfforddiant priodol iddynt, nid yn unig i ddenu pobl, ond i sicrhau eu bod yn dal ati i gymryd rhan. Mae'n hanfodol ein bod ni i gyd yn cydweithio er mwyn eu helpu i ddatblygu ein sylfaen o wirfoddolwyr yng Nghymru.

7. Pawb Yn Chwarae Eu Rhan

Os am weithredu ein gweledigaeth, mae'n rhaid i ni fabwysiadu dull aml-sector o weithio. Rydym eisiau gweld partneriaethau cadarn a chynaliadwy'n cael eu datblygu rhwng pawb sy'n chwarae eu rhan yn y byd chwaraeon, boed yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. Ac mae'n rhaid i ni i gyd ddyheu am fod yn sefydliadau sy'n perfformio'n hynod dda.

Os am godi'r safon a sicrhau cyfleoedd chwaraeon safonol a chyson i bawb eu mwynhau, mae'n rhaid i bawb chwarae eu rhan. Yng Nghymru, rydym yn ddibynnol iawn ar ein gwasanaethau cyhoeddus ac er bod hyn yn rhywbeth i'w ddathlu ac i ymfalchïo ynddo, er mwyn sicrhau gweithgarwch cynaliadwy a chynyddol bydd raid wrth ymdrech gyda mwy fyth o ffocws ar greu partneriaethau cyhoeddus – preifat – gwirfoddol sy'n mynd y tu hwnt i waith prosiect. Mae'n rhaid i hyn ddatblygu i fod yn norm.

Mae gennym lawer i'w ddysgu oddi wrth ein gilydd a gall chwaraeon ddysgu oddi wrth eraill hefyd o ran ei ddull o reoli a datblygu talent, a datblygu strwythurau a chefnogaeth ar gyfer ei aelodau.

Mae'r sector yn unedig y tu ôl i weledigaeth gyffredin ar gyfer chwaraeon ac mae'n ymroi i gyflawni gydag uchelgais, ffocws ac egni.